**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) - DYDD IAU, 3 GORFFENNAF 2025**

COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 3 GORFFENNAF 2025 AM 11:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | A Ulberini-Williams | ED Winstanley |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | R J Smith | I M Spiller | T Thomas |
| A Wathan | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorwyr: M Jones, P Ford a J Llewellyn-Hopkins
A Clarke, Cynrychiolydd Cofrestredig

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp - Gweithio Integredig |
| Kevin Reeves | Rheolwr Gweithredol - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Owen Shepherd | Cydlynydd Datblygu Ieuenctid |
| Catherine Evans | Rheolwr Gweithredol - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Deborah Jones | Ymarferydd Arweiniol Trawma/Cydlynydd Prosiect |

Cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid: Dirprwy Faer Ieuenctid

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datgan Buddiannau

H Griffiths – Personol – Cadeirydd y Llywodraethwyr yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen.
H David – Personol – mae rhai o'r cyfeiriadau yn yr adroddiad yn cyffwrdd â phenderfyniadau a wnaed yn ystod ei gyfnod fel Arweinydd.
J-P Blundell – Personol – mae rhai o'r cyfeiriadau yn yr adroddiad yn cyffwrdd â phenderfyniadau a wnaed yn ystod ei gyfnod fel Aelod Cabinet.

## 76. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 ar 8 Mai 2025 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 3 Gorffennaf 2025 |

## 77. Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr a Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaethau manwl gydag Aelod Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Mynegodd yr Aelodau bryder ynglŷn â'r pwysau sylweddol ar Waith Ieuenctid a Chyfiawnder Ieuenctid o ran eu dibyniaeth ar Gyllid Grant ac **argymhellodd** y Pwyllgor fod yr Arweinydd / Aelod Cabinet priodol yn cysylltu â'r tri Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r etholaethau ar draws Bwrdeistref |

<table>
<tr><td></td><td>Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, i gael eglurhad ynglŷn â cham y cais am gyllid a wnaed i'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid.<br><br>2. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys astudiaethau achos sy'n dangos llais a phrofiad pobl ifanc, er mwyn rhoi adborth ynghylch sut mae'r gwasanaethau sydd ar gael wedi'u cynorthwyo a darparu unrhyw safbwyntiau neu awgrymiadau ynghylch dulliau amgen posibl o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir.<br><br>3. Argymhellodd y Pwyllgor, er ei fod yn cydnabod y byddai ymhell o fod yn syml, fod yna angen am weithio amlasiantaethol cydgysylltiedig er mwyn sicrhau setiau data cyflawn i gasglu gwybodaeth gan bob person ifanc sydd â chysylltiad â'r Heddlu ac asiantaethau eraill, er mwyn optimeiddio'r gwasanaeth i'r person ifanc.<br><br>4. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai adroddiadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â Gwasanaeth Ieuenctid a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr gynnwys y trydydd sector fel rhan o'r ddarpariaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, archwilio'r gefnogaeth ariannol a ddarperir i'r trydydd sector, a dylid gwahodd cynrychiolydd o'r trydydd sector ar gyfer adroddiadau o'r fath.<br><br>Gwybodaeth Ychwanegol y gofynnwyd amdani:<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor i'r canlynol gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor:<br><br>5. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd fod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio a’i werthuso’n sylweddol, wedi'u hategu gan y Cynllun Strategol Tair Blynedd, ond nodwyd bod diffyg data wedi’i ddarparu yn yr adroddiad i ddangos sut roedd cynnydd yn cael ei fesur a gofynnwyd am y data perfformiad a dadansoddi chwarterol sy’n cael ei gyflwyno i Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>6. Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad dienw o'r mathau o ddigwyddiadau y mae pobl ifanc sy'n dod yn hysbys i'r Gwasanaeth wedi bod yn rhan ohonynt, er mwyn cael dealltwriaeth o'r sefyllfaoedd anodd y mae pobl ifanc yn eu hwynebu.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>3 Gorffennaf 2025</td></tr>
</table>

## 78. Enwebu Pencampwr Rhianta Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Enwebu'r Cynghorydd Elaine Winstanley i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid fel Gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 3 Gorffennaf 2025 |

## 79. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar y diwygiad isod, nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol, a nododd y byddai'r Flaenraglen Waith, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth.<br><br>Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc am aildrefnu trefn rhai o'r adroddiadau yn y Flaenraglen Waith, yn amodol ar drafodaeth gyda'r Cadeirydd a'r Swyddogion. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 3 Gorffennaf 2025 |

## 80. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 3 Gorffennaf 2025 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:14.